

Briff Ymchwil

# Codi tâl am fagiau siopa: cwestiynau cyffredin

Awdur: **Chloe Corbyn**

Dyddiad: **Awst 2016**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Chloe Corbyn**
Dyddiad: **Awst 2016**
Rhif Papur: **16-046**
Clawr blaen: **Llun Flikr gan Zainub Razvi. Dan drwydded Creative Commons**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: **0300 200 6316**
: **Chloe.Corbyn@Cynulliad.Cymru**
: **Cynulliad.Cymru/Pigion**
: **@SeneddYmchwil**
: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Codi tâl am fagiau siopa: cwestiynau cyffredin

Ar 1 Hydref 2011, cyflwynodd Cymru ofyniad i godi tâl am y rhan fwyaf o fagiau siopa untro. Hi oedd y wlad gyntaf yn y DU i wneud hynny. Nod y briff ymchwil byr hwn yw ateb rhai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin sydd gan Aelodau a'u hetholwyr ynglŷn â'r cynllun codi tâl am fagiau siopa.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys


01. Cyflwyniad ... 1
02. Faint yw'r tâl? ... 1
03. Pwy sy'n gorfod codi tâl am fagiau? ... 1
04. Pryd nad oes rhaid codi tâl am y bagiau? ... 1
05. Beth yw'r ddeddfwriaeth berthnasol? ... 1
06. I ble mae'r arian yn mynd? ... 2
07. A oes rhaid i fanwerthwyr ddweud wrth unrhyw un ble mae'r arian yn mynd? ... 2
08. Beth mae manwerthwyr yn ei wneud â'r arian? ... 2
09. A yw Llywodraeth Cymru yn cael unrhyw arian o'r cynllun? ... 3
10. A yw Trysorlys y DU yn cael unrhyw arian o'r cynllun? ... 3
11. Beth yw'r gost i fanwerthwyr am weithredu'r cynllun? ... 3
12. Pwy sy'n gorfodi'r cynllun? ... 3
13. A oes cynlluniau tebyg ar waith mewn mannau eraill? ... 3
14. Ffynonellau allweddol ... 4

# 1. Cyflwyniad

Ar 1 Hydref 2011, cyflwynodd Cymru ofyniad i godi tâl am y rhan fwyaf o fagiau siopa untro. Hi oedd y wlad gyntaf yn y DU i wneud hynny. Mae'r taliadau'n berthnasol i bob bag a gynlluniwyd i'w ddefnyddio un waith, p'un a yw wedi'i wneud o blastig, papur, neu ddeunydd sy'n seiliedig ar blanhigion, fel startsh. Byddai'r tâl yn gymwys i fasnachu drwy'r post neu ar-lein pe byddai'r nwyddau yn cael eu cludo i Gymru mewn bag siopa untro. Mae rhagor o wybodaeth, ar gyfer y cyhoedd a manwerthwyr, ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru am y cynllun codi tâl am fagiau siopa.

# 2. Faint yw'r tâl?

Y tâl lleiaf yw 5c, er y gall manwerthwyr godi mwy os ydynt yn dymuno.

# 3. Pwy sy'n gorfod codi tâl am fagiau?

Nid yw'r rheolau sy'n llywodraethu'r tâl yn cynnwys esemptiadau ar gyfer unrhyw fath o fusnes. Mae'r taliadau'n berthnasol i bawb sy'n gwerthu nwyddau wrth fasnachu neu gynnal busnes, gan gynnwys busnesau archebu drwy'r post neu fasnachu ar-lein, pan fo'r nwyddau'n cael eu gwerthu yng Nghymru, neu'n cael eu danfon i gyfeiriad yng Nghymru.

# 4. Pryd nad oes rhaid codi tâl am y bagiau?

A siarad yn gyffredinol, mae dau ddosbarth o esemptiadau i'r taliadau: **mathau o fagiau** a **mathau o eitemau** y defnyddir y bagiau ar eu cyfer. Rhestrir yr esemptiadau hyn yn Atodlen 1 i **Reoliadau 2010**.

**Mae'r mathau o fagiau** nad oes rhaid codi tâl amdanynt yn cynnwys bagiau y bwriedir iddynt gael eu hailddefnyddio, fel "bagiau am oes" a rhai mathau o fagiau bach plastig neu bapur heb handlenni.

Nid oes angen codi tâl am fagiau os cânt eu defnyddio **yn unig** i gario rhai **mathau penodol o eitemau**. Mae'r rhain yn cynnwys bwyd heb ei becynnu, llafnau heb eu pecynnu, rhai eitemau meddygol penodol a chreaduriaid byw dyfrol mewn dŵr. Unwaith eto, ceir rhestr gyflawn yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau.

# 5. Beth yw'r ddeddfwriaeth berthnasol?

Mae tri darn pwysig o ddeddfwriaeth a roddodd y pŵer i Lywodraeth Cymru gyflwyno tâl am fagiau siopa untro, ac un sydd wedi ymestyn pwerau Llywodraeth Cymru:

- **Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008:** Mae'r Ddeddf hon yn rhoi pwerau i awdurdodau cenedlaethol gyflwyno deddfwriaeth i godi tâl am fagiau siopa;
- **Mesur Gwastraff (Cymru) 2010:** Mae'r Mesur hwn yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu i ble mae'r arian a dderbynnir yn mynd, yn sgil codi tâl statudol am fagiau siopa;
- **Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010:** Dyma'r rheoliadau a gyflwynodd y taliadau statudol am fagiau siopa, ac maent yn rhoi rhagor o fanylion am weithrediad y cynllun.

– **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2015**: Cafodd y Ddeddf hon Gydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016 ac mae'n ymestyn pwerau Gweinidogion Cymru fel y gallant yn y dyfodol bennu tâl am fathau eraill o fagiau plastig, er enghraifft bagiau am oes, os yw'r dystiolaeth yn dangos bod darparu a chael gwared ar y bagiau hyn hefyd yn niweidiol i'r amgylchedd.

## 6. I ble mae'r arian yn mynd?

Yn wreiddiol **nid oedd unrhyw ofynion gorfodol** ynglŷn â'r hyn yr oedd manwerthwyr yn ei wneud gydag elw net y taliadau am fagiau siopa. Yn hytrach, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gytundeb gwirfoddol oedd yn annog manwerthwyr i roi eu helw net i achosion da ac i gadw at set o egwyddorion canllaw wrth wneud hynny.

Fodd bynnag, mae *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* nawr yn ei gwneud yn ofynnol i fanwerthwyr roi eu helw net yn sgil gwerthu bagiau siopa i achosion da sy'n gysylltiedig â gwarchod neu wella'r amgylchedd, ac sydd o fudd uniongyrchol neu anuniongyrchol i Gymru gyfan neu unrhyw ran ohoni. Mae eithriad i'r manwerthwyr hynny sydd â threfniadau yn eu lle eisoes lle maen nhw'n rhoi eu helw i achosion da nad ydynt yn rhai amgylcheddol os ydynt yn rhoi rhybudd eu bod yn bwriadu parhau â'r trefniadau hyn. Bydd manylion ynghylch sut i roi'r elw net ac i bwy, a'r amgylchiadau pan fydd yr eithriad yn gymwys, yn cael eu nodi yn y Rheoliadau sydd ar ddod.

## 7. A oes rhaid i fanwerthwyr ddweud wrth unrhyw un i ble mae'r arian yn mynd?

Mae'n rhaid i bob manwerthwr sy'n cyflogi **deg neu fwy o bobl** gadw **cofnod manwl o faint o fagiau siopa y mae'n eu gwerthu a'r hyn y mae'n ei wneud â'r arian**. Rhaid i'r cofnodion hyn fod ar gael i aelodau o'r cyhoedd neu Lywodraeth Cymru os gwneir cais i'w gweld.

Pan fo manwerthwyr wedi'u cofrestru ar gyfer TAW ac yn cyflenwi dros fil o fagiau untro mewn blwyddyn rhaid iddynt gyhoeddi'r cofnodion hyn, naill ai ar y rhyngrwyd neu drwy hysbysiadau yn y siop.

## 8. Beth mae manwerthwyr yn ei wneud â'r arian?

Mae nifer o'r manwerthwyr mawr wedi cyhoeddi'r hyn y maent yn ei wneud ag elw net y tâl am fagiau siopa. Mae'r rhain yn cynnwys:

– **John Lewis**: mae'r elw net yn mynd i'r elusen **Cadwch Gymru'n Daclus**;

– **Asda**: mae'r elw net yn mynd i **fentrau cymdeithasol lleol**;

– **Tesco**: mae'r elw net yn mynd i **Ymddiriedolaeth Groundwork**;

– **Sainsbury**: mae'r siopau yn darparu bagiau y gellir eu hailddefnyddio, yn hytrach na bagiau untro. Mae'r elw o'r bagiau hyn yn mynd i achosion da lleol y mae cydweithwyr a chwsmeriaid y siop yn eu dewis, a dyna sy'n digwydd hefyd i'r elw net o fagiau untro a ddefnyddir ar gyfer dosbarthu ar-lein.

– **Marks and Spencer**: roedd 4c o bob bag 5c yn cael ei anfon yn wreiddiol i'r elusen amgylcheddol **Groundwork,** ond nawr caiff ei rannu gyda hanner yn mynd i **elusennau lleol,** a hanner i elusennau cenedlaethol fel **Cymorth Canser MacMillan, Breast Cancer Now a'r Gymdeithas Cadwraeth Forol.**

## 9. A yw Llywodraeth Cymru yn cael unrhyw arian o'r cynllun?

Mae'r cynllun gorfodaeth yn golygu **y gellir rhoi dirwy** i fanwerthwyr nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Byddai'r arian hwn (mae'r dirwyon yn amrywio o £100 i £20,000) yn mynd i Gronfa Gyfunol Cymru, sy'n golygu y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wario ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. **Nid oes dim o'r tâl gorfodol o 5c a godir am fagiau siopa yn mynd i Lywodraeth Cymru**.

## 10. A yw Trysorlys y DU yn cael unrhyw arian o'r cynllun?

**Rhaid talu TAW** ar y bagiau plastig y codir tâl amdanynt o dan y cynllun. Bydd Trysorlys y DU, felly, yn cael arian ar ffurf TAW am bob bag plastig y codir tâl amdano gan fusnes a gofrestrwyd at ddibenion TAW yng Nghymru.

## 11. Beth yw'r gost i fanwerthwyr am weithredu'r cynllun?

Amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru mai cyfanswm y gost i fanwerthwyr ledled Cymru fyddai oddeutu £1 miliwn am y gwaith sefydlu cychwynnol, ac yna costau gweinyddol blynyddol o £ 1 miliwn.

Mae'n ofynnol i fanwerthwyr gadw cofnodion yn dangos beth maent yn ei wneud ag elw'r tâl am y bagiau. Mae hyn yn cynnwys ffigur ar gyfer y swm a wariwyd ar "gostau rhesymol": hynny yw, costau er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Nid yw cost prynu bagiau gan gyfanwerthwr yn "gost resymol", gan nad yw'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i fanwerthwyr ddarparu bagiau.

Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei **Hadolygiad ôl-weithredu codi tâl ar fagiau siopa untro** oedd yn amcangyfrif bod cyfanswm cost gweinyddu’r tâl i fanwerthwyr yng Nghymru yn llai na £180k y flwyddyn.

## 12. Pwy sy'n gorfodi'r cynllun?

**Swyddogion gorfodi awdurdodau lleol** sy'n gyfrifol am orfodi'r Rheoliadau. Nid yw'r Rheoliadau yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i fonitro'n weithredol bod manwerthwyr yn cydymffurfio â'r Rheoliadau, ond maent, ar y llaw arall, yn rhoi'r pŵer iddynt orfodi manwerthwyr i gydymffurfio pan fyddant o'r farn bod hynny'n angenrheidiol.

Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod yr awdurdodau lleol wedi cael y pwerau i orfodi'r ddeddfwriaeth newydd, ond nad oeddent yn derbyn unrhyw gyllid ychwanegol. O ganlyniad, mae wedi datgan na fydd awdurdodau lleol yn cynnal **unrhyw waith gorfodi rhagweithiol**. Yn lle hynny, bydd awdurdodau lleol yn ymateb i gwynion ac yn ymchwilio iddynt. Y dull a ddefnyddir yw rhoi cyngor a chymorth i helpu'r masnachwr gydymffurfio â'r gofynion: ystyrir gorfodaeth fel y dewis olaf.

## 13. A oes cynlluniau tebyg ar waith mewn mannau eraill?

Cymru oedd y **wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig** i weithredu tâl statudol am fagiau siopa, yn 2011. Ers hynny, mae'r Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr wedi cyflwyno dulliau tebyg o godi 5c am bob bag plastig a ddefnyddir, er mai dim ond i fagiau plastig, a dim ond i fusnesau â thros 250 o weithwyr y

mae hyn yn berthnasol yn Lloegr. Yng Ngogledd Iwerddon, caiff yr arian hwn ei dalu i Adran yr Amgylchedd yn hytrach na'i roi i elusen fel yng Nghymru, yr Alban a Lloegr.

Yng Ngweriniaeth Iwerddon, cyflwynwyd ardoll a elwir yn PlasTax yn 2002, ar raddfa o €0.15 y bag. Cododd i €0.22 yn 2007. Caiff yr arian a ddaw i mewn yn sgil yr ardoll hon ei ychwanegu at Gronfa'r Amgylchedd, a'i wario ar fentrau fel 'Ysgolion Gwyrdd', ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o wastraff a chostau gweithredu cyfleusterau ailgylchu. Hwn oedd y model a grybwyllwyd amlaf yn y drafodaeth yn ystod datblygiad y tâl yng Nghymru.

## 14.Ffynonellau allweddol


– Cyllid a Thollau EM, **Briff Cyllid a Thollau 23/11 VAT: introduction of levy on 'single-use' carrier bags in Wales,** Mehefin 2011

– Llywodraeth Cymru, **Cytundeb gwirfoddol: yr egwyddorion i'w dilyn wrth ddefnyddio'r elw net o'r tâl am fagiau siopa untro (PDF 35KB),** Hydref 2010

– Llywodraeth Cymru, **Talu am Fagiau Cymru,** gwefan